GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

EX20

Talu fy nyfarniad - Beth ddylwn i wneud?

Y daflen hon

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych sut i dalu eich dyfarniad ac mae'n rhoi rhagor o wybodaeth i chi ynghylch beth mae'r dyfarniad yn ei olygu i chi.

I bwy ydw i'n talu?

Rhaid i chi dalu i'r hawlydd. Dyma'r person, neu'r sefydliad, a wnaeth yr hawliad yn eich erbyn. Efallai bydd gan yr hawlydd dwrnai, neu gynrychiolydd, a fydd yn delio â'ch taliadau.

Mae'r enw a'r cyfeiriad ar gyfer y taliad wedi'u nodi'n glir ar ffurflen y dyfarniad.

Os yw'r dyfarniad yn dweud wrthych am dalu mewn rhandaliadau, gofynnwch i'r hawlydd, neu ei ch/gynrychiolydd, am y ffordd orau o dalu. Efallai bydd yr hawlydd yn rhoi llyfr talu-i-mewn i chi neu efallai gallwch sefydlu archeb sefydlog i anfon yr arian yn syth at yr hawlydd o'ch cyfrif banc.

Cofiwch: ni all y llys dderbyn eich taliadau.

Sut ydw i'n talu?

Defnyddiwch ffordd o dalu sy'n rhoi prawf eich bod wedi talu bob tro.

Cewch anfon sieciau neu archebion post drwy'r post. Ond peidiwch ag anfon arian parod gan na fydd gennych brawf eich bod wedi talu.

Anfonwch eich enw, eich cyfeiriad, rhif yr hawliad a chyfeirnod yr hawlydd gyda'ch taliad. Mae cyfeirnod yr hawlydd ar y dyfarniad. Cadwch gopi o unrhyw lythyrau a anfonwch.

Cadwch gofnod o'r taliadau a wnewch. Bydd angen cofnod o'r fath arnoch os ydych chi a'r hawlydd yn anghytuno ynghylch y taliadau rydych chi wedi'u gwneud.

Os ydych chi'n talu mewn rhandaliadau, efallai byddwch eisiau defnyddio'r daflen gofnodi sydd ar dudalen 6.

Pryd ydw i'n talu?

Mwy na thebyg bydd y dyfarniad yn nodi erbyn pryd y bydd yn rhaid i chi dalu i'r hawlydd. Os ydych chi ar ei hôl hi neu'n hwyr gyda'ch taliadau, hyd yn oed un diwrnod yn hwyr, gall yr hawlydd ofyn i'r llys gymryd camau i'ch gorfodi i dalu. Gall hyn olygu y bydd yn rhaid i chi dalu rhagor o gostau.

Anfonwch eich taliadau at yr hawlydd o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y dyddiad y maent yn ddyledus. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer unrhyw oedi.

Fydda i'n gallu cael credyd nawr?

Bydd y rhan fwyaf o ddyfarniadau wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Bydd eich enw yn aros ar y Gofrestr am chwe blynedd oni fyddwch yn talu'r cyfanswm sy'n ddyledus ymhen mis ar ôl dyddiad y dyfarniad.

Mae banciau, cymdeithasau adeiladau a chwmnïau credyd yn chwilio drwy'r Gofrestr. Gallai eich dyfarniad effeithio arnoch os ydych yn gwneud cais am gredyd neu forgais. Yn y llyfryn 'Credit Explained', esbonnir i chi beth y gallwch ei wneud pe gwrthodir credyd i chi. Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i gael copi.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

Llinell gymorth Diogelu Data: 01625 545 745

Llinell archebu cyhoeddiadau: 08453 091 091

e-bost: mail@ico.gsi.gov.uk

gwefan: www.informationcommissioner.gov.uk.

Sut ydw i'n cael fy enw oddi ar y Gofrestr?

Os byddwch chi'n talu'r cyfanswm sy'n ddyledus ymhen mis ar ôl dyddiad y dyfarniad, gallwch ofyn i'r llys dynnu eich enw oddi ar y Gofrestr.

Bydd y llys yn dileu eich enw oddi ar y Gofrestr ac yn rhoi tystysgrif i chi a fydd yn profi eich bod wedi talu'r ddyled ymhen un mis.

Bydd yn rhaid i chi dalu ffi fach a dangos prawf i'r llys eich bod wedi talu'r cyfanswm (er enghraifft, llythyr gan yr hawlydd yn nodi eich bod wedi talu). Gall y llys egluro'r prawf sydd ei angen arnoch.

Beth alla'i ei wneud os ydw i'n talu ar ôl un mis?

Os na allwch dalu'r ddyled cyn pen mis, gallwch ofyn i'r llys nodi 'wedi'i fodloni' ar y Gofrestr ar ôl i chi dalu eich taliad olaf. Bydd hyn yn dangos i unrhyw un sy'n chwilio drwy'r Gofrestr eich bod wedi talu'r ddyled. Bydd hefyd yn nodi dyddiad eich taliad olaf.

Bydd dal yn rhaid i chi dalu ffi a dangos prawf i'r llys eich bod wedi talu. Bydd y llys yn rhoi 'tystysgrif bodlonrwydd' i chi ond bydd eich enw yn aros ar y Gofrestr am chwe blynedd ar ôl dyddiad y dyfarniad.

Gall y llys brosesu tystysgrif canslo neu ddiwallu ymhen 5 diwrnod, a dim mwy na 10 diwrnod ar ôl derbyn, ond ni all wneud hyn oni bai eich bod yn dangos prawf eich bod wedi talu, rhif yr hawliad a'r ffi. Os nad ydych yn rhoi prawf o'r taliad bydd angen i'r llys gael prawf gan y credydwr a gallai hyn gymryd hyd at fis.

Beth os na chefais i'r ffurflen hawlio?

Os na wnaethoch chi ymateb i'r ffurflen hawlio, bydd yr hawlydd wedi gofyn am ddyfarniad 'yn sgil diffygfalu'.

Os anfonir dyfarniad atoch gyda'r pennawd 'diffygdalu' ond nad oeddech wedi derbyn y ffurflen hawlio, gallwch ofyn i'r dyfarniad gael ei 'osod o'r naill du'. (Mae hyn yn golygu eich bod yn gofyn i'r dyfarniad gael ei ganslo.) Dim ond os ydych chi'n meddwl nad oes arnoch chi'r arian y cewch chi wneud hyn. Os caiff y dyfarniad ei osod o'r naill du, bydd y llys yn tynnu eich enw chi oddi ar y Gofrestr. Ni fydd yn rhaid i chi dalu ffi.

Os ydych chi eisiau i'r llys osod y dyfarniad o'r naill du, llenwch Ffurflen Gais N244 (sydd ar gael yn rhad ac am ddim o swyddfa unrhyw lys sirol). Nodwch nad oeddech chi wedi derbyn y ffurflen hawlio a'r rheswm pam nad ydych chi'n meddwl y dylech chi dalu'r dyfarniad. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'ch cais. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi i wneud y cais. Gall staff y llys ddweud wrthych faint fydd hyn, neu fe allwch gael gwybodaeth yn nhaflen Ffioedd y Llys Sirol (sydd ar gael gan unrhyw lys sirol neu o'n gwefan www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk). Cadwch gopi o'ch ffurflen gais.

> Ni ddylech ofyn i'r llys osod y dyfarniad o'r naill du os ydych yn cytuno bod yr arian yn ddyledus gennych. Os na allwch dalu'r swm y mae'r llys wedi'i orchymyn, darllenwch y daflen **'Alla i ddim talu'r dyfarniad - beth ddylwn i wneud?'**. Mae hon ar gael yn rhad ac am ddim gan swyddfa unrhyw lys sirol neu o'r wefan www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk.

Ar ôl i'r llys ddarllen eich ffurflen gais bydd yn trefnu gwrandawiad preifat ar eich cyfer chi a'r hawlydd er mwyn trafod eich cais gyda'r barnwr rhanbarth. Bydd y barnwr rhanbarth yn penderfynu a ddylid canslo'r dyfarniad ai peidio. Os nad yn eich llys lleol y gwnaethpwyd y dyfarniad, bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo yno cyn trefnu'r gwrandawiad.

Dywedir wrthych pryd a lle i ddod i'r llys.

> Os na fyddwch chi yn y gwrandawiad, gellid taflu eich cais i ganslo'r dyfarniad allan (ei wrthod). Efallai bydd rhaid i chi dalu rhagor o gostau a gall yr hawlydd gymryd rhagor o gamau i gael yr arian sy'n ddyledus.

Beth os yw'r rhandaliadau yn wahanol i'r hyn y cynigais eu talu?

Os anfonir dyfarniad atoch gyda'r pennawd 'derbyniad', ond bod y rhandaliadau yn wahanol i'r hyn y cynigoch chi i'w talu pan ymateboch chi i'r ffurflen hawlio, cewch ysgrifennu at y llys yn gofyn iddynt newid eich rhandaliadau. Rhaid i chi nodi pam eich bod eisiau iddynt wneud hyn.

Beth fydd yn digwydd os na wna'i ddim byd?

Os oes gennych ddyfarniad llys sirol yn eich erbyn, **rhaid i chi wneud rhywbeth yn ei gylch,** hyd yn oed os na allwch chi fforddio'r swm y dywedwyd wrthych am ei dalu. Gall eich llys sirol lleol roi copi rhad ac am ddim i chi o'r daflen **'Alla i ddim talu'r dyfarniad - beth ddylwn i wneud?'.**

Os na fyddwch chi'n talu dim byd, neu os na fyddwch yn talu'r rhandaliadau'n rheolaidd, gall yr hawlydd ofyn i'r llys orfodi'r dyfarniad (cymryd camau i wneud i chi dalu). Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhagor o gostau.

Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y daflen hon, bydd y llys yn gallu eich helpu. Gwnewch yn siwr bod rhif hawliad y llys ac unrhyw ddogfennau a gwybodaeth am yr hawliad gennych wrth law pan fyddwch yn siarad â'r llys. Mae swyddfeydd y rhan fwyaf o lysoedd ar agor rhwng dydd Llun a dydd Gwener, 10am i 4pm.

Cofiwch:

- Talwch i'r hawlydd neu ei ch/gynrychiolydd, nid i'r llys.
- Amgaewch eich enw, eich cyfeiriad ac unrhyw gyfeirnod.
- Cofnodwch yr holl daliadau rydych chi wedi eu gwneud a chadwch brawf ohonynt.
- Anfonwch eich taliad o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y dyddiad y mae'n ddyledus.
- Nid yw staff y llys yn dwrneiod. Allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi.

I gael gwybodaeth gyfreithiol, cymorth a chyngor yn rhad ac am ddim, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol ar 0845 3454345 neu www.clsdirect.org.uk

Llys	Rhif yr Hawliad	Hawlydd	Cyfeirnod	Cyfanswm y dyfarniad
Rhandal rhif	Dyddiad yr anfonoch chi'r taliad	Y swm a anfonoch	Cyfanswm eich taliadau hyd yn hyn	Swm sydd dal yn ddyledus gennych
Enghraifft	*1 Rhagfyr 2003*	*£20*	*£20*	*£80*
1				
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				